



## Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Strategaeth tipio anghyfreithlon i Gymru, 'Cymru ddi-dipio'.

### Sylwadau cyffredinol

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae tipio anghyfreithlon yn enghraifft weladwy iawn o weithgaredd anghynaliadwy ac annymunol.

Mae gennym gyfrifoldebau penodol dros reoleiddio'r diwydiant gwastraff. Rydym yn un o brif ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru, yn ymgynghorydd i ddiwydiant, y cyhoedd ehangach a'r sector gwirfoddol, ac yn gorff sy'n cyfathrebu am faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol. Yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli cyfran sylweddol o dir yng Nghymru.

Mae tipio anghyfreithlon yn effeithio ar bob un ohonom. Mae tipio anghyfreithlon yn cael effaith andwyol ar bobl, busnesau a'r amgylchedd. Mae'n drosedd ddifrifol sy'n weladwy, yn difetha ein cymdogaethau lleol ac yn gallu cael effaith ar ansawdd bywyd y gymuned leol. Ar adegau mae'n gallu bod yn beryglus i bobl a bywyd gwyllt trwy ledaenu clefydau, achosi llygredd a halogi pridd, ac mae'n gallu golygu bod ardaloedd yn fwy tebygol o ddioddef problemau draenio a llifogydd. Mae hefyd yn tanseilio busnesau sy'n gweithredu'n gyfreithlon ac yn ymdrin â'u gwastraff yn gyfrifol, ac yn creu effaith negyddol ar gyfer ymwelwyr â Chymru.

Yn ogystal â helpu i ddatblygu gwell sylfaen dystiolaeth drwy rannu data, byddwn yn parhau'n bartner ymroddedig yn y fforymau Taclo Tipio Cymru. Rydym hefyd yn dymuno cael ein hystyried yn esiampl o sut i ddeall a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â thipio anghyfreithlon ar ein hystâd ein hunain.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad.

Hoffem gynnig y sylwadau canlynol mewn ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad:

#### 1. A ydych yn credu y bydd y strategaeth hon yn helpu i daclo tipio anghyfreithlon yng Nghymru?

Ydyn – rydym yn croesawu'r camau gweithredu a gyflwynwyd yn y strategaeth, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn hawdd i'w deall, mae'n cynnwys cerrig milltir clir ac fe'i datblygwyd â mewnbwn gan ystod o bartïon sydd â diddordeb.

Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol i ni ddatblygu a defnyddio tystiolaeth dda a dysgu o brofiad er mwyn taclo tipio anghyfreithlon yn effeithiol. Mae hynny'n hanfodol er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau da a chyfeirio adnoddau at y manau lle gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Rydym yn cytuno nad oes modd i unrhyw gorff neu grŵp unigol yng Nghymru daclo problem tipio anghyfreithlon ar ei ben ei hun. Rydym yn cefnogi'r cynigion i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud mewn partneriaeth a gweithio gyda chymunedau lleol. Rydym yn cytuno y bydd y dull hwn o weithredu'n helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon.

## **2. A ydych yn cytuno â'r camau gweithredu arfaethedig dan bob adran o'r strategaeth?**

Mae'r strategaeth yn enghraifft o weithredu cadarnhaol a meddwl mewn ffordd gydgyssylltiedig sy'n cysylltu dinasyddion, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol mewn dull cynaliadwy o weithredu. Gallai llwyddiannau'r strategaeth gael eu defnyddio hefyd yn fodd i asesu cynnydd yn erbyn amcanion y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn cefnogi'r camau gweithredu a gynigwyd, ac yn cydnabod bod gennym gyfraniad sylweddol i'w wneud o ran cyflawni'r camau gweithredu yng Nghanlyniadau 1 a 4 yn ogystal â'r tair thema drawsbynciol. Mae'r pwyntiau allweddol wedi'u nodi isod:

### ***Thema drawsbynciol 1 – Gwella gwaith casglu data***

Yn hanesyddol mae ceisio deall yn iawn beth yw hyd a lled y broblem tipio anghyfreithlon yng Nghymru wedi bod yn her. Mae data ynghylch digwyddiadau wedi canolbwyntio'n bennaf ar dir awdurdodau lleol, ac ychydig iawn o wybodaeth, os o gwbl, a geir ynghylch digwyddiadau ar dir preifat. Bydd ein gwaith o ran datblygu system i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gofnodi, asesu ac ymateb i bob achos o dipio anghyfreithlon yr adroddir amdano ar dir a reolir gennym yn helpu i roi eglurder ynghylch y darlun ehangach yng Nghymru.

### ***Thema drawsbynciol 2 – Gweithio mewn partneriaeth***

Rydym o'r farn mai gweithio mewn partneriaeth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o archwilio dulliau newydd o weithio, sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael ymysg partneriaid.

### ***Thema drawsbynciol 3 – Cyfathrebu***

Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd rôl cyfathrebu effeithiol ac ymgysylltu â'r gymuned. Gallai deall y ffactorau sydd wrth wraidd tipio anghyfreithlon a gweithio i sefydlu'r neges yn ymwybod y cyhoedd bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol o safbwynt cymdeithasol fod yn fwy effeithiol na dulliau mwy traddodiadol o reoleiddio a gofodi. Rydym yn croesawu'r astudiaethau arfaethedig a'r ffocws y bwriedir ei roi ar y meysydd hyn. Bydd defnyddio'r ystod gyfan o gyfryngau cymdeithasol hefyd yn helpu i ysgogi ac ennyn diddordeb ymysg carfanau mwy helaeth o'n cymunedau.

***Canlyniad 1 – Bydd pob sefydliad allweddol yng Nghymru yn ymrwymo i ddileu tipio anghyfreithlon, ymrwymiad sy'n rhan annatod o'u strategaethau a'u gwaith o ddydd i ddydd.***

Mae strategaethau Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd sydd o fudd i bobl, busnesau a'r amgylchedd. Felly bydd y strategaethau hyn yn cefnogi ac yn helpu i hybu'r canlyniadau yn y Strategaeth Tipio Anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i wella ein gwaith o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio arfer da ac yn rhannu gwybodaeth â'n partneriaid yn y gwaith hwn.

***Canlyniad 4 – Bydd unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael ei ddal a'i gosbi***

Bydd datblygu'r system gwybodaeth a rennir arfaethedig a'r System Gwybodaeth Ddaeryddol FlyMapper yn gwella ein dealltwriaeth o dipio anghyfreithlon yng Nghymru ar lefel strategol a thactegol. Byddwn yn gweithio gyda Taclo Tipio Cymru i archwilio'r modd y gellir bwydo data a gaiff ei gasglu gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r systemau newydd hyn er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng tipio anghyfreithlon a throseddwyr gwastraff sydd weithiau'n gweithio ar draws sawl ardal awdurdod lleol.

Rydym yn cytuno â'r cynigion i ddatblygu canllaw i gynnal ymchwiliadau a datblygu model gorfodi mwy cadarn. Mae'n hanfodol bod unrhyw ymchwiliad i dipio anghyfreithlon yn cael ei gynnal mewn modd nad yw'n peryglu unrhyw gamau gorfodi dilynol y gallai fod angen eu cymryd. Mae'r gwaith i addysgu'r cylchdeithiau ynadon hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod unrhyw berson neu gwmni sy'n cael eu dal yn tipio'n anghyfreithlon yn wynebu cosb a ddylai atal eraill rhag ymddwyn mewn modd tebyg.

***Canlyniad 3 – Bydd yn haws i bobl ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol.***

Rydym yn cydnabod y bydd yr astudiaeth arfaethedig, sy'n ystyried effaith y ddarpariaeth amrywiol o gyfleusterau gwaredu gwastraff ar lefelau tipio anghyfreithlon, yn darparu tystiolaeth werthfawr. Gellir defnyddio'r dystiolaeth hon i adnabod unrhyw welliannau y mae angen eu gwneud i Gynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd a Chynllun Sector Gwastraff Trefol Llywodraeth Cymru.

**3. A hoffech weld unrhyw gamau gweithredu eraill yn cael eu cynnwys, a pham?**

Rydym yn cefnogi'r camau gweithredu yn y strategaeth i wella'r ymchwil sy'n cael ei wneud yn y maes hwn ac yn cefnogi'r ddealltwriaeth ehangach a ddaw yn sgîl y sylfaen dystiolaeth well a gaiff ei chreu o ganlyniad i hynny.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn symud tuag at ddull gweithredu sy'n seiliedig ar ffrwd wastraff er mwyn archwilio pa rai yw'r ymyriadau mwyaf effeithiol ar gyfer taclo pob math o wastraff, ac mae hynny'n cynnwys tipio anghyfreithlon. Dyma ffordd newydd o weithio, a dylai sicrhau bod ein dull o reoleiddio gwastraff yn ymateb i'r cyfleoedd yr ydym yn eu hadnabod ar gyfer lleihau gwastraff a sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn modd mwy cynaliadwy yn llawer cynt yng nghylched bywyd deunydd.

Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghymru.

#### **4. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ynghylch sut y gellir cyflawni'r canlyniadau?**

Mae tipio anghyfreithlon yn gallu cael effaith ar sbectrwm eang o sefydliadau a chymunedau. Rydym yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru, sef mai'r unig ffordd o dacio'r problemau hyn yw drwy weithio mewn partneriaeth, gan na all unrhyw gorff neu grŵp unigol fynd i'r afael â'r broblem ar ei ben ei hun. Er mwyn i bartneriaeth o'r fath fod yn effeithiol mae'n rhaid i bob un o'r partneriaid ddangos ymrwymiad gwirioneddol i dacio'r broblem. Ac i'r perwyl hwn, rydym yn croesawu'r cam gweithredu arfaethedig i godi proffil tipio anghyfreithlon ymhlith pobl ar y lefelau uchaf mewn sefydliadau.

Mae'n bwysig bod negeseuon ac ymgyrchoedd cyfathrebu ynghylch newid ymddygiad tuag at reoli gwastraff yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn rhoi anogaeth glir i newid y ffordd y mae pobl yn meddwl am wastraff ac adnoddau, er mwyn mynd dileu'r broblem trwy ymdrin â'r ffactorau sydd wrth wraidd tipio anghyfreithlon. Bydd hynny'n ffurfio rhan o'r gwaith ehangach y mae angen ei wneud er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithlon, er enghraifft drwy atal gwastraff a chynyddu cyfraddau aildefnyddio ac ailgylchu. Drwy symud gwastraff ymhellach i fyny'r hierarchaeth wastraff a hybu'r manteision ehangach sydd i'w cael o wneud hynny, gallwn sicrhau bod llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu, a bod unrhyw wastraff sy'n cael ei gynhyrchu'n cadw gwerth uchel. Bydd hynny'n helpu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yng Nghymru, a bydd hefyd yn lleihau'r effaith y mae'r genedl yn ei chael ar y newid yn yr hinsawdd, gan helpu i sicrhau adnoddau ar gyfer economi Cymru a gwireddu gweledigaeth 'Cenedl Un Blaned'.

#### **5. A hoffech gymryd rhan yn y gweithgorau er mwyn helpu i gyflawni'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd i sicrhau'r canlyniadau?**

Rydym yn croesawu'r cyfle i fod yn bartner allweddol ym mhartneriaeth Taclo Tipio Cymru. Fel sefydliad newydd, mae gennym gyfleoedd newydd i lywio a gweithredu'r bartneriaeth. Byddwn yn parhau i gefnogi partneriaeth Taclo Tipio Cymru ac ymwneud â hi er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn cael eu gwireddu.

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynghylch ein sylwadau, cysylltwch â Gareth Lewis ar [Gareth.Lewis@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Gareth.Lewis@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).

Isobel Moore Pennaeth Busnes, Rheoleiddio ac Economeg  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd  
Caerdydd CF24 0TP  
02920 466118

[Isobel.Moore@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Isobel.Moore@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)